Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government Committee

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

**Lesley Griffiths AC**
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

24 Hydref 2014

Annwyl Weinidog

**Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, 2015-16**

Diolch i chi am ddod i'r Pwyllgor ar 9 Hydref 2014 i ateb cwestiynau ynghylch cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16.

Hoffai'r Pwyllgor dynnu'ch sylw at y materion isod, ac mae'n edrych ymlaen at gael eich ymateb, lle bo'n briodol, cyn gynted ag y bo modd.

Nodwn fod ystyriaeth y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft wedi'i seilio ar bedwar amcan gwaith craffu ariannol, sef fforddiadwyedd; blaenoriaethu; gwerth am arian; a phrosesau'r gyllideb. Rydym wedi defnyddio'r amcanion hyn yn ein hystyriaethau ninnau, lle'r oedd hynny'n briodol. Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at y Pwyllgor Cyllid i fwydo'u hystyriaeth gyffredinol nhw ar y gyllideb ddrafft ac fe'i cyhoeddir ar ein gwefan ni hefyd.

**Trechu tlodi**

Rydym yn credu ei bod yn bwysig gweld cysylltiadau clir rhwng dyraniadau yn y gyllideb a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi (TPAP). Nodwn eich haeriad bod y cyfraniad at Drechu Tlodi yn un ffactor pendant wrth benderfynu ar y newidiadau a oedd i'w gwneud rhwng y gyllideb ddangosol ar gyfer 2015-16 a'r gyllideb ddrafft a bod cyllidebau wedi'u diogelu o ran y rhaglenni sy'n cyfrannu at

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh
Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth/
Policy and Legislation Committee Service
Ffôn / Tel : 0292089 8032

yr agenda gwrthdlodi gymaint â phosibl. Er ein bod yn croesawu hyn, rydym yn ymwybodol o ostyngiadau yn y dyraniadau yn y gyllideb ar draws portffolios y Gweinidogion a allai gael effaith ar gyflawni'r Cynllun Gweithredu. Y gostyngiad amlycaf ymysg y rhain yw'r gostyngiad yng nghyllid Cymunedau yn Gyntaf, sy'n un o'r rhaglenni allweddol yn y Cynllun Gweithredu.

Gwyddom fod yna adroddiad blynyddol ar gynnydd tuag at gyflawni'r Cynllun Gweithredu. Gobeithio y bydd yn ddefnyddiol fel ffordd i helpu i fonitro effaith penderfyniadau ynghylch y gyllideb ar y cynnydd ac rydym yn bwriadu monitro hyn drwy waith craffu yn ystod y flwyddyn.

## Cymunedau yn Gyntaf

Roedd y Pwyllgor yn awyddus i weld cysylltiad pendant rhwng buddsoddi yn rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a deilliannau clir, mesuradwy, er mwyn i werth am arian gael ei ddangos.

Mae'r angen am waith monitro effeithiol ar sut mae cyllid y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei wario, ac am ddeilliannau clir a mesuradwy, wedi bod yn thema barhaus yn ein hystyriaethau ni ar y rhaglen. Mae hyn yn ganolog yng nghyd-destun y cyfyngiadau ariannol presennol, pan fo'n fwyfwy pwysig dangos gwerth am arian.

Gwyddom fod y Fframwaith Deilliannau a'r mesurau perfformiad wedi'u cytuno a'u bod yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i fesur cynnydd. Rhoddodd eich rhagflaenydd wybodaeth berfformiad inni a oedd wedi'i seilio ar nifer yr ymyriadau, ond nid ydym yn glir sut mae'r data hwn yn cael ei ddefnyddio i fesur effeithiolrwydd y rhaglen. Gan hynny, byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ar sut mae'r rhaglen yn cael ei monitro, nid yn unig yn nhermau nifer yr ymyriadau ond o ran ansawdd y deilliannau.

O'r 100 o ddangosyddion perfformiad ar gyfer y rhaglen, dywedasoch wrthym fod yna 20 o ddangosyddion allweddol sy'n mesur y deilliannau caletaf a bod cais wedi'i wneud i glystyrau Cymunedau yn Gyntaf ganolbwyntio ar y rhain. Cytunasoch y byddech yn rhoi'r dangosyddion allweddol hyn inni pan fydden nhw ar gael.

Dywedasoch hefyd fod y gwaith monitro'n cael ei fireinio ymhellach er mwyn cysoni'r mesuriadau perfformiad ar draws Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Hoffem ichi adrodd yn ôl ar ganlyniad y gwaith hwn.

Yn sgil ein hystyriaeth ar gyllideb y llynedd pan gododd y Pwyllgor bryderon gyda'ch rhagflaenydd ynghylch diffyg gwaith monitro a chloriannu ar y rhaglen, dywedwyd wrthym y byddai adroddiad cloriannu ynghylch rhaglen ddiwygiedig Cymunedau yn Gyntaf ar gael ym mis Gorffennaf 2014. Hoffem gael gwybodaeth am ganlyniad y gwaith cloriannu hwn cyn gynted â phosibl.

## Cefnogi Pobl a digartrefedd

Rydym yn poeni ynghylch y gostyngiad cyffredinol o £10 miliwn i'r Rhaglen Cefnogi Pobl, ac yn enwedig yr effaith y gallai'r gostyngiad hwn mewn gwariant ataliol ei chreu ar ddigartrefedd. Mae hyn yn cyd-fynd â chynnydd yn y dyraniad yn y gyllideb ar gyfer Digartrefedd, sy'n cynnwys £4.9 miliwn i helpu i roi'r darpariaethau ynghylch digartrefedd yn Neddf Tai (Cymru) 2014 ar waith. Nodwn haeriad eich swyddog y byddai trefnu blaenoriaethau atal digartrefedd fel hyn yn arwain at fanteision hirdymor "that were worth taking that short-term hit [...] on the budget more generally". Er hynny, rydym yn dal yn bryderus y gallai'r gostyngiad mewn maes allweddol mewn gwariant ataliol negyddu unrhyw fantais bosibl a allai godi o'r cynnydd yn y cyllid ar gyfer atal digartrefedd.

Nodwn fod yr awdurdodau lleol a Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl yn paratoi i ymdrin â chanlyniadau'r gostyngiad yn y gyllideb. Rydym yn croesawu'ch ymrwymiad i gyhoeddi gwybodaeth am yr archwiliadau unigol o wasanaethau Cefnogi Pobl ac ar arolwg hydredol Cefnogi Pobl sy'n edrych ar effeithiau'r rhaglen yn y tymor hirach. Hoffem ichi roi'r wybodaeth hon inni maes o law.

## Y Cyflenwad Tai

Rhoddodd y Pwyllgor groeso i'r adolygiad o'r Grant Tai Cymdeithasol sydd newydd ddechrau ac a ddylai wella effeithlonrwydd proses y grant. Mae'r Pwyllgor yn gweld buddsoddiadau cyfalaf mewn tai fel cyfle, nid yn unig i sicrhau rhagor o dai fforddiadwy, ond i sicrhau manteision sylweddol i gymunedau, a nododd fod Gwerth Cymru'n cael ei ddefnyddio fel ffordd i fesur hyn. Yn fwy cyffredinol, mae'r Pwyllgor yn gweld cyfle i integreiddio tai a gwaith adfywio cymunedol â rhaglen adfywio Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.

Nododd y Pwyllgor yr wybodaeth fonitro reolaidd sy'n dod i law ar gynllun Cymorth i Brynu - Cymru, a'r archwiliad blynyddol, yn ogystal ag arfarniad allanol arfaethedig.

## Troi Tai'n Gartrefi

Rydym yn croesawu llwyddiant cynllun Troi Tai'n Gartrefi a'r cynnydd arwyddocaol sydd wedi'i wneud hyd yn hyn tuag at y targed o ailddechrau defnyddio 5,000 o safleoedd gwag. Rydyn ni hefyd yn croesawu'r £10 miliwn ychwanegol i'r cynllun yn 2015-16, y dywedasoch ei fod yn cael ei ddarparu er mwyn ateb y cynnydd yn y galw am fenthyciadau yn sgil llwyddiant y cynllun.

Dywedodd eich swyddog fod arfarniad o'r cynllun wedi dechrau. Rydym yn croesawu'r bwriad y dylai'r arfarniad gynnwys ystyried a ddylai fod yn ofynnol i landlordiaid eiddo ar rent sydd wedi elwa o'r cynllun godi rhent fforddiadwy. Hoffem gael manylion canlyniad yr arfarniad cyn gynted ag y byddant ar gael.

Nodwn nad yw'r cynllun ar gael i berchen-feddianwyr. Credwn y byddai'n dda ymestyn y cynllun i berchen-feddianwyr o dan amgylchiadau penodol. Rydym yn croesawu'ch ymrwymiad i ystyried y mater ac yn gofyn ichi adrodd yn ôl ar ganlyniad eich ystyriaethau ar y cyfle cyntaf.

## Addasu a thrwsio cartrefi


Rydyn ni, a'n rhagflaenwyr, wedi ymddiddori'n fawr mewn gwaith i addasu cartrefi dros nifer o flynyddoedd, yn fwyaf diweddar yn ein hadroddiad ym mis Gorffennaf 2013. Nodwn fod adolygiad Llywodraeth Cymru ei hun ar fin cyflwyno adroddiad cyn hir a'ch bod chi wedi dweud y caiff unrhyw fân newidiadau yn y system addasu eu gwneud drwy gyfrwng eich cyllideb adrannol gan nad oes dyraniad penodol wedi'i wneud at y diben. Byddwn yn disgwyl cael canlyniadau'r adolygiad er mwyn gweld a oes yna oblygiadau ariannol.

Nododd y Pwyllgor gyfnod peilot y cynllun Benthyciadau Gwella Cartrefi, a fydd yn targedu pobl sy'n agored i niwed, gan gynnwys pobl hŷn, y mae arnyn nhw angen cymorth ynglŷn â gwaith trwsio, â diddordeb.

Rydym yn bwriadu monitro'r ddau faes uchod yn ofalus i sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei sicrhau.

Yn gywir

**Christine Chapman AC / AM**
Cadeirydd / Chair



Cc. Jocelyn Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid